

RHYBUDD O FWRIAD

DEDDF RHEOLI TRAFNIDIAETH FFYRDD, 1984 ADRAN
14(1) FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF TRAFNIDIAETH
FFYRDD (CYFYNGIADAU DROS DRO), 1991

GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
(GWAHARDD TRAFFIG TRWODD DROS DRO)
(CROESFAN WASTAD Y FALI RHIF 2) 2022

RHODDIR DRWY HYN RYBUDD fod Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council yn bwriadu dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd hwn wneud Gorchymyn bydd yn gwahardd dros dro pob cerbyd, ac eithrio cerbydau argyfwng, rhag teithio mewn unrhyw gyfeiriad ar hyd Croesfan Wastad Y Fali.

Mae angen y Gorchymyn ar gyfer gwaith tynnu'r groesfan wastad ac ailosod.

Y ffordd arall yw o bwynt gogledd dwyreiniol y caead, teithio mewn cyfeiriad gogledd dwyreiniol ar hyd y B4545 Ffordd yr Orsaf, Y Fali i'r groesffordd gyda'r A5 ger y Valley Hotel. Troi i'r chwith i fynd ar yr A5 a chario 'mlaen mewn cyfeiriad gogledd gorllewinol i'r gyffordd gyda Lôn Spencer. Troi i'r chwith i fynd ar Lôn Spencer a pharhau mewn cyfeiriad de gorllewinol i'r gyffordd gyda'r B4545 Ffordd yr Orsaf. Bydd y gwrthwyneb yn berthnasol i draffig sy'n teithio o'r cyfeiriad arall.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1af Ebrill 2022 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod na fydd yn fwy na 4 wythnos neu hyd nes y cwblheir y gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd, pa un bynnag fyddo gyntaf. Ar hyn o bryd disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ar 7fed Ebrill 2022.

NOTICE OF INTENTION

ROAD TRAFFIC REGULATION ACT, 1984 SECTION
14(1) AS AMENDED BY THE ROAD TRAFFIC
(TEMPORARY RESTRICTIONS) ACT, 1991

CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL
(TEMPORARY PROHIBITION OF THROUGH TRAFFIC)
(VALLEY LEVEL CROSSING NO.2) ORDER 2022

NOTICE IS HEREBY GIVEN that Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council intend not less than seven days from the date hereof to make an Order, the effect of which will temporarily prohibit all vehicles, except for emergency vehicles, from travelling in either direction across Valley Level Crossing.

The Order is necessary for level crossing removal and reinstatement.

The alternative route will be from the north eastern point of the closure, travel in a north easterly direction along the B4545 Station Road Valley to the crossroads with the A5 by the Valley Hotel. Turn left onto the A5 and proceed in a north westerly direction to the junction with Spencer Road. Turn left onto Spencer Road and proceed in a south westerly direction to the junction with the B4545 Station Road, and vice versa for traffic travelling in the other direction.

The Order comes into effect on 1st April 2022 and will continue in force for a period not exceeding 4 weeks or until the work which it is proposed to carry out on the road is completed, whichever is the earlier. At this stage it is anticipated that the works will be completed on 7th April 2022.

DYDDIEDIG

16/03/2022

DATED



ROBYN W JONES

RHEOLWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL/LEGAL SERVICES MANAGER
CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
SWYDDFA'R SIR/COUNTY OFFICES, LLANGEFNI, YNYS MÔN LL77 7TW

AM FWY O WYBODAETH YNGLYN Â'R UCHOD CYSYLLTWCH Â'R ADRAN GYFREITHIOL AR / FOR FURTHER INFORMATION REGARDING THE ABOVE PLEASE TELEPHONE THE LEGAL SECTION ON LLANGEFNI 01248 752389 HT-023874-SMJ

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.